



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref:

29 August 2019

Annwyl Gyfeillion,

Arolwg o'r Gymraeg

Fel rhan o waith parhaus i asesu sut y mae anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith yn cael eu diwallu, mae Llywodraeth Cymru a BMA Cymru Wales yn cynnal arolwg byr o'r gallu o ran y Gymraeg mewn practisau meddygon teulu ledled Cymru. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth a fydd yn helpu i gynllunio at y dyfodol a chefnogi practisau gan fod dyletswyddau a rheoliadau newydd wedi dod i rym yng nghyswllt y Gymraeg.

Mae'r arolwg byr hwn, a anfonir i bob practis meddyg teulu yng Nghymru, yn ceisio cadarnhau pa wasanaethau, hyfforddiant a gwybodaeth y mae practisau yn eu darparu yn Gymraeg a Saesneg ar hyn o bryd. Dylai'r arolwg gymryd tua 10 munud i'w lenwi a gellir cael gafael arno drwy'r ddolen isod. Mae holiadur yr arolwg ynghlwm ar ffurf pdf hefyd er mwyn eich helpu i gasglu gwybodaeth cyn ei lenwi ar-lein.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/14MC6/?lang=417150>

Nid yw'r arolwg yn casglu gwybodaeth bersonol (felly nid oes ganddo oblygiadau o dan GDPR), a bydd yr holl ddata a gesglir yn cael eu cadw'n ddiogel. Gallai'r canlyniadau gael eu cyhoeddi a/neu eu rhannu â sefydliadau perthnasol eraill, fel

Comisiynydd y Gymraeg a Byrddau Iechyd. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd ac ni fyddant yn enwi practisau unigol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r arolwg, cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd Lleol yn gyntaf.

Yn gywir,



Alex Slade
Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol



Dr Phil White,
Cadeirydd, Pwllgor Meddygon Teulu Cymru, BMA Cymru Wales



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ